TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC
# ECONOMEG

ACHREDWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

# MANYLEB

Addysgu o 2015

I'w ddyfarnu o 2016 (UG)
I'w ddyfarnu o 2017 (Safon Uwch)

Fersiwn 2 Mawrth 2019



This Welsh Government regulated qualification is not available to centres in England.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 45 |

© WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a SAFON UWCH ECONOMEG CBAC

## I'w addysgu o 2015
## UG i'w ddyfarnu o 2016
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2017

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TAG UG a Safon Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2015.

Tudalen


| | | |
|---|---|---|
| Crynodeb o'r asesiad | | 2 |
| 1. | Rhagarweiniad | 3 |
| 1.1. | Nodau ac Amcanion | 3 |
| 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 4 |
| 1.3 | Cydraddoldeb ac asesu teg | 4 |
| 1.4 | Bagloriaeth Cymru | 5 |
| 1.5 | Persbectif Cymreig | 5 |
| 2. | Cynnwys y pwnc | 6 |
| 2.1 | Unedau UG | 7 |
| 2.2 | Unedau U2 | 23 |
| 3. | Asesu | 44 |
| 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 44 |
| 4. | Gwybodaeth dechnegol | 45 |
| 4.1 | Cofrestru | 45 |
| 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 46 |
| Atodiad A: Sgiliau Meintiol mewn Economeg | | 47 |


© WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a SAFON UWCH ECONOMEG (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESIAD

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

**UG (2 uned)**

UG Uned 1
Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
15% o'r cymhwyster — 55 marc

Cwestiynau dewis lluosog a chwestiynau strwythuredig.
Yn cwmpasu'r holl gynnwys UG.

UG Uned 2
Economeg ar Waith
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster — 80 marc

Cwestiynau gorfodol ymateb i ddata.
Yn cwmpasu'r holl gynnwys UG.

**Safon Uwch (yr uchod yn ogystal â 2 uned bellach)**

U2 Uned 3
Archwilio Ymddygiad Economaidd
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
30% o'r cymhwyster — 80 marc

Cwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar gynnwys U2.
Un cwestiwn gorfodol ymateb i ddata.
Yn cwmpasu'r holl gynnwys Safon Uwch.

U2 Uned 4
Gwerthuso Modelau a Pholisïau Economaidd
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster — 90 marc

Un traethawd ym mhob adran:
- Adran 1 - Micro-economeg
- Adran 2 - Macro-economeg
- Adran 3 - Masnach a Datblygu.

Yn cwmpasu'r holl gynnwys Safon Uwch.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2017.

**Rhif Cymhwyster**
**ar restr The Register:**
**TAG UG: 601/5228/X**
**TAG Safon Uwch: 601/5034/8**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau**
**Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/0721/9**
**TAG Safon Uwch: C00/0721/8**

© WJEC CBAC Cyf.

# TAG UG a SAFON UWCH ECONOMEG

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae manyleb UG a Safon Uwch Economeg CBAC yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- datblygu eu diddordeb a'u brwdfrydedd am y pwnc
- gwerthfawrogi cyfraniad economeg at ddealltwriaeth o'r amgylchedd economaidd a chymdeithasol ehangach
- datblygu dealltwriaeth o amrywiaeth o gysyniadau a gallu i ddefnyddio'r cysyniadau hynny mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol
- defnyddio dull ymholi, beirniadol a meddylgar o astudio economeg a datblygu gallu i feddwl fel economegydd
- deall bod modd astudio ymddygiad economaidd o amrywiaeth o berspectifau
- meithrin sgiliau dadansoddol a meintiol, ynghyd â phriodweddau ac agweddau a fydd yn eu cymhwyso ar gyfer sialensau, cyfleoedd a chyfrifoldebau bywyd oedolyn a bywyd gwaith.

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfuniad cydlynol o gynnwys micro-economeg a macro-economeg yn rhesymegol ar gyfer dysgwyr a fydd yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau a damcaniaethau economaidd trwy ystyriaeth feirniadol o faterion, problemau a sefydliadau economaidd presennol sy'n effeithio ar fywyd bob dydd. Mae'r fanyleb hon yn paratoi'r dysgwyr hynny sy'n dymuno symud ymlaen i astudiaeth israddedig.

Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddefnyddio cysyniadau a damcaniaethau economaidd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac i werthfawrogi eu gwerth a'u cyfyngiadau wrth egluro ffenomena o'r byd go iawn. Byddant yn dod i werthfawrogi natur gymhleth a rhyngberthynol economeg ac yn meithrin sgiliau dadansoddol a meintiol wrth ddethol, dehongli a defnyddio data priodol o amrywiaeth o ffynonellau.

Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddatblygu ymwybyddiaeth o faterion economaidd cyfoes sy'n berthnasol i economi Cymru a dealltwriaeth eang o hanes economaidd diweddar Cymru gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus.

© WJEC CBAC Cyf.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol. Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau yn Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda i symud ymlaen at y cymhwyster Lefel 3 hwn.

Bydd rhai dysgwyr eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio economeg ar gyfer TGAU.

Rhestrir sgiliau meintiol yn y meini prawf pynciol a'u hailadrodd yn Atodiad A y fanyleb hon.

Darperir sylfaen addas yn y fanyleb hon ar gyfer astudio economeg neu faes perthynol trwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach neu i ddilyn gyrfa yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac, o'r herwydd, mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb ac asesu teg

Gellir astudio'r fanyleb hon gan unrhyw ddysgwr, beth bynnag fo'i ryw, cefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli diddordebau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr sy'n cael eu hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

© WJEC CBAC Cyf.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd lle bo'n briodol i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu trwy Graidd Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Rhaid i ddysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Cyf.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r fanyleb hon yn cynnig cyfuniad cydlynol o gynnwys micro-economeg a macro-economeg. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gysyniadau a damcaniaethau economaidd trwy ystyriaeth feirniadol o faterion, problemau a sefydliadau economaidd presennol sy'n effeithio ar fywyd bob dydd, gan ddefnyddio cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae'r fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth fanwl o'r rôl mae marchnadoedd yn ei chwarae a'r ffordd mae llywodraethau'n ceisio eu rheoli. Bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfoes mewn polisi macro-economaidd.

Bydd disgwyl i ddysgwyr ddeall modelau o farchnadoedd micro-economaidd a macro-economaidd, gan ddefnyddio'r modelau i archwilio ymddygiad economaidd cyfredol a gwneud cysylltiadau achosol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddatblygu dull beirniadol tuag at fodelau economaidd a dulliau ymholi, gan adnabod cyfyngiadau'r modelau economaidd.

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau dadansoddol a meintiol wrth ddewis, dehongli a defnyddio data priodol o amrywiaeth o ffynonellau a ddefnyddir yng nghyd-destun UG a Safon Uwch Economeg.

Mae'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau wedi'u gosod yn y tair colofn ar y tudalennau sy'n dilyn. Mae’r pwnc sydd i gael ei astudio yn y golofn gyntaf, gyda manylion y cynnwys yn yr ail golofn a chanllawiau pellach, lle bo angen, yn y drydedd golofn. Nid oes unrhyw drefn flaenoriaeth wrth gyflwyno’r wybodaeth a’r manylion hanfodol, ac ni ddylid ystyried bod hyd y gwahanol adrannau yn awgrymu unrhyw farn am eu pwysigrwydd cymharol.

© WJEC CBAC Cyf.

# 2.1 UNEDAU UG

Bydd cynnwys pwnc UG Economeg yn cael ei asesu ar draws dau bapur arholiad.

**Uned 1: Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
15% o'r cymhwyster Safon Uwch (37.5% o'r cymhwyster UG)

**Uned 2: Economeg ar Waith**

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster Safon Uwch (62.5% o'r cymhwyster UG)

Mae'r fanyleb UG yn seiliedig ar yr egwyddor o greu dealltwriaeth ragarweiniol eang, ond sylfaenol, o sut mae marchnadoedd a'r economi yn gweithio, e.e. mae'n cyflwyno dysgwyr i'r cysyniadau allweddol cyflenwad a galw mewn marchnadoedd unigol (micro-economeg) ac yn yr economi cyfan (macro-economeg). Bydd gofyn i ddysgwyr ddefnyddio modelau sylfaenol i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o faterion economaidd ac archwilio ymddygiad economaidd cyfredol, gan ddefnyddio data o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys data sy'n berthnasol i economi Cymru. Yn y bôn, mae'r cynnwys UG wedi'i rannu yn micro-economeg a macro-economeg.

**Micro-economeg**

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddeall bod economeg yn astudiaeth o adnoddau prin a sut mae'r adnoddau hyn yn cael eu dyrannu i'w defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn economi marchnad. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr hefyd ddeall ymddygiad economaidd defnyddwyr, cynhyrchwyr a llywodraethau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o dybiaethau'r model cyflenwad a galw ac egluro'r ffordd mae'n gweithio gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau. Mae angen i ddysgwyr feddu ar ddealltwriaeth o fuddion marchnadoedd a sut maent yn gweithio a'r rhesymau pam byddent yn gallu methu.
Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Prinder a dewis
- Galw a chyflenwad mewn marchnadoedd cynnyrch
- Galw a chyflenwad mewn marchnadoedd llafur
- Dyrannu adnoddau
- Methiant y farchnad.

© WJEC CBAC Cyf.

**Prinder a dewis**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Prinder, dewis a chost ymwad | Diffinio ac esbonio'r cysyniadau prinder, dewis a chost ymwad i gymdeithas, unigolion a'r llywodraeth | Dylai dysgwyr ddeall bod y cysyniadau hyn yn dangos bod yn rhaid i bob economi benderfynu ar beth i'w gynhyrchu, sut ac ar gyfer pwy,a deall y gwahaniaeth rhwng nwyddau economaidd a nwyddau am ddim |
| Ffiniau posibilrwydd cynhyrchu (*PPF*s) | Defnyddio diagramau ffin posibilrwydd cynhyrchu (PPFs) i ddarlunio dewis, cost ymwad, twf economaidd tymor byr a thymor hir, ac effeithlonrwydd<br><br>Deall symudiadau ar hyd ffiniau posibilrwydd cynhyrchu a symudiadau yn y ffiniau hynny | |
| | Deall pam mae'r *PPF* fel arfer yn cael ei llunio yn geugrwm i'r tarddbwynt oherwydd amnewid amherffaith o ffactorau, a pham mae *PPF* llinell syth yn arwydd bod gan adnoddau amnewidiadwyedd perffaith o ffactorau | Bydd angen i ddysgwyr ddeall y cysyniad o gost ymwad gynyddol ar y ffin (margin) wrth i gynnyrch gynyddu |
| | Egluro ffactorau a all symud y PPF i mewn neu allan<br><br>Cysylltu twf economaidd tymor hir a newidiadau mewn cynhyrchedd â symudiadau tuag allan neu sgiw yn ffin posibilrwydd cynhyrchu economi | Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiad rhwng *PPF*s a photensial economaidd fel sy'n cael ei ddangos gan y gromlin cyflenwad cyfanredol y tymor hir |
| Arbenigaeth, rhaniad llafur a chyfnewid | Deall manteision ac anfanteision arbenigaeth<br><br>Diffinio cynhyrchedd ac egluro sut byddai modd ei gynyddu drwy ddefnyddio arbenigaeth a ffactorau eraill | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd arbenigaeth ar lefel unigol ac ar lefel genedlaethol |

© WJEC CBAC Cyf.

**Galw a chyflenwad mewn marchnadoedd cynnyrch**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Ffactorau sy'n dylanwadu ar alw a chyflenwad mewn marchnadoedd cynnyrch | Diffinio marchnad cynnyrch<br><br>Egluro amcanion asiantau economaidd:  mae cwmnïau'n ceisio uchafu elw ac mae defnyddwyr yn ceisio uchafu boddhad/defnydd-deb<br><br>Deall pwysigrwydd defnydd-deb ffiniol (marginal utility) wrth ddeillio cromliniau galw<br><br>Nodi'r prif ddylanwadau ar alw a chyflenwad mewn marchnadoedd cynnyrch<br><br>Deall pam mae cromliniau galw fel arfer yn goleddu i lawr o'r chwith i'r dde<br><br>Deall pam bydd cromliniau cyflenwad fel arfer yn goleddu i fyny o'r chwith i'r dde, er enghraifft, bydd cynhyrchwyr yn gallu gwneud elw uwch ar brisiau uwch a bod lefelau uwch o gynnyrch yn golygu costau ffiniol uwch yn y tymor byr | **Ni** fydd yn ofynnol gwybod am ddadansoddi diwahaniaeth<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol y caiff ei dybio bod cwmnïau a defnyddwyr yn ymddwyn yn rhesymegol<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y cysyniad defnydd-deb ffiniol lleihaol. **Nid** yw'n ofynnol deall adenillion ffiniol hafal<br><br>Dylai dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o effeithiau amnewid ac incwm newid mewn pris<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r dybiaeth bod cwmnïau yn dderbynwyr prisiau (*price takers*) yn y dadansoddiad hwn o'r gromlin cyflenwad |
| Pennu pris a chynnyrch cytbwys mewn marchnad gystadleuol rydd | Darlunio, gan ddefnyddio diagramau, sefyllfaoedd pris a chynnyrch cytbwys mewn marchnadoedd cynnyrch<br><br>Egluro effeithiau symudiadau cromliniau galw a chyflenwad ar bris a chynnyrch | Dylai dysgwyr allu deall y rhesymau dros symudiadau ar hyd cromliniau galw a chyflenwad a symudiadau (shifts) o'r cromliniau |
| Gwarged defnyddwyr a chynhyrchwyr | Diffinio, egluro a darlunio, gan ddefnyddio diagramau, gwarged defnyddwyr a gwarged cynhyrchwyr | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod gwarged defnyddwyr a gwarged cynhyrchwyr yn cael eu huchafu ar y cyd yng nghydbwysedd y farchnad rydd<br><br>Dylai dysgwyr allu cyfrifo gwerth gwarged defnyddwyr a gwarged cynhyrchwyr, er enghraifft, cyfrifo arwynebedd triongl ar sail y ffigurau a roddir mewn diagram |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Elastigedd pris galw, elastigedd incwm galw, croeselastigedd galw, elastigedd pris cyflenwad | Deall ystyr y termau elastigedd pris galw, elastigedd incwm galw, croeselastigedd galw ac elastigedd pris cyflenwad | Dylai dysgwyr allu diffinio, cyfrifo a dehongli gwerthoedd rhifiadol o elastigedd<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy’n dylanwadu ar elastigedd pris galw, elastigedd incwm galw, croeselastigedd galw ac elastigedd pris cyflenwad |
| | Egluro’r berthynas rhwng elastigedd pris galw a chyfanswm derbyniadau | Dylai dysgwyr ddeall bod elastigedd pris galw yn amrywio ar hyd cromlin galw sy’n llinell syth sy’n goleddu i lawr |
| | Defnyddio'r cysyniad elastigedd incwm i wahaniaethu rhwng nwyddau normal a nwyddau israddol | |
| | Cymhwyso'r cysyniad elastigedd at gyd-destunau economaidd, er enghraifft, pwysfan trethi a phwysfan cymorthdaliadau | Dylai dysgwyr allu gwerthuso i ba raddau mae gwybodaeth am elastigedd pris galw ac elastigedd pris cyflenwad yn bwysig wrth wneud penderfyniadau mewn cwmnïau ac yn y llywodraeth |

© WJEC CBAC Cyf.

**Galw a chyflenwad mewn marchnadoedd llafur**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Pennu cyflog | Nodi’r prif ddylanwadau ar alw a chyflenwad mewn marchnadoedd llafur | **Nid** yw'n ofynnol gwybod am ddamcaniaeth derbyniadau’r cynnyrch ffiniol<br><br>Mae'n ofynnol gwybod am y ffactorau sy'n achosi symudiadau yng nghromliniau y galw am lafur a chyflenwad llafur, wedi'u hesbonio drwy ddefnyddio diagramau |
| | Deall y ffactorau sy'n pennu elastigedd y galw am lafur ac elastigedd cyflenwad llafur | |
| | Deall achosion a goblygiadau gwahaniaethau cyflog | Dylai dysgwyr gymryd y cyfle i ymchwilio i gyflogau yng Nghymru o'i gymharu â gweddill y DU |
| Materion marchnadoedd llafur | Deall y ffactorau sy'n effeithio ar hyblygrwydd mewn marchnadoedd llafur, er enghraifft, pŵer undebau llafur, rheoleiddio, taliadau lles a chyfraddau treth incwm | Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau rhwng materion yn y farchnad lafur a pherfformiad ochr-gyflenwad yn yr economi |
| | Gwerthuso effeithiau'r isafswm cyflog cenedlaethol statudol ar farchnadoedd llafur | Dylai dysgwyr ddeall effaith yr isafswm cyflog cenedlaethol ar asiantau economaidd a'r economi ehangach<br><br>Dylai dysgwyr ymchwilio i'r achos am isafswm cyflog rhanbarthol i Gymru |
| | Egluro effaith mudo ar farchnadoedd llafur | Dylai dysgwyr allu esbonio *(illustrate)* hyn drwy ddefnyddio diagramau |

© WJEC CBAC Cyf.

**Dyrannu adnoddau**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Sut caiff adnoddau eu dyrannu mewn economi marchnad rydd | Deall rôl elw a swyddogaeth prisiau wrth ddyrannu adnoddau i wahanol ffyrdd o’u defnyddio | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r prif dybiaethau y mae marchnadoedd rhydd yn gweithredu arnynt, fel nifer mawr o brynwyr a gwerthwyr, gwybodaeth berffaith |
| | Deall bod newidiadau mewn un farchnad yn effeithio ar farchnadoedd eraill, cydberthnasoedd rhwng marchnadoedd ffactorau a marchnadoedd cynnyrch | Dylai dysgwyr ddeall nad yw asiantau economaidd, mewn gwirionedd, yn ymddwyn yn rhesymegol bob amser |

© WJEC CBAC Cyf.

**Methiant y farchnad**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Deall methiant y farchnad | Diffinio methiant y farchnad a meddu ar ddealltwriaeth o effeithlonrwydd, hynny yw uchafu gwarged defnyddwyr/ cynhyrchwyr ar gynnyrch cytbwys y farchnad rydd<br><br>Deall y gall methiant y farchnad fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:<br>• nwyddau cyhoeddus<br>• nwyddau rhinwedd a di-rinwedd<br>• allanolderau<br>• grym monopoli<br>• anghymesureddau gwybodaeth a bylchau mewn gwybodaeth<br>• absenoldeb hawliau eiddo preifat<br>• anghydraddoldeb incwm<br>• prisiau cyfnewidiol<br><br>Deall y rhesymau dros bob ffynhonnell o fethiant y farchnad, a'u canlyniadau, i asiantau economaidd | Dylai dysgwyr allu gwahaniaethu rhwng nwyddau cyhoeddus a nwyddau preifat<br><br>Dylai dysgwyr allu lluniadu a dadansoddi diagramau yn dangos buddion allanol treuliant, a chostau allanol treuliant a chynhyrchu<br><br>Dylai dysgwyr allu deillio'r lefel gymdeithasol effeithlon o gynnyrch a nodi ac egluro colled lles |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
| --- | --- | --- |
| Pam a sut mae llywodraethau'n ymyrryd mewn marchnadoedd | Egluro pam a sut mae llywodraethau'n ymyrryd mewn marchnadoedd, er enghraifft, i unioni methiant y farchnad a lleihau anghydraddoldeb incwm<br><br>Gwerthuso polisïau ymyriad y llywodraeth | Gallai llywodraethau ymyrryd drwy ddefnyddio polisïau, fel trethi (trethi penodol ac *ad valorem*), cymorthdaliadau, darpariaeth a rheoleiddio gan y wladwriaeth, isafbrisiau ac uchafbrisiau, defnyddio prisiau, er enghraifft prisio ffyrdd a thrwyddedau llygredd masnachadwy<br><br>Dylid defnyddio diagramau galw a chyflenwad syml<br><br>Dylai dysgwyr allu cysylltu polisïau â'r gostyngiad yn anghydraddoldeb incwm, er enghraifft, trethi esgynradd a'r system fudd-daliadau, sefydlogi pris a chynlluniau isafbris gwarantiedig mewn amaethyddiaeth a'r isafswm cyflog cenedlaethol<br><br>Dylai dysgwyr gymryd y cyfle i ymchwilio i'r ffordd mae llywodraeth Cymru wedi ymyrryd i unioni methiant y farchnad, er enghraifft, presgripsiynau GIG am ddim a chodi tâl am fagiau plastig<br><br>Gallai cyfleoedd i gymhwyso anghydraddoldeb incwm at gyd-destun Cymreig gynnwys gwahaniaethau mewn incwm rhwng ardaloedd yng Nghymru, fel rhannau o Gymru wledig a Chymoedd De Cymru o'u cymharu â dinasoedd fel Caerdydd ac Abertawe |
| Effeithiau ymyriad llywodraeth | Egluro y gall ymyriad llywodraeth mewn rhai achosion greu ystumiadau mewn marchnadoedd, er enghraifft marchnadoedd amaethyddiaeth, tai a llafur<br><br>Deall y rhesymau dros fethiant y llywodraeth a gallu gwerthuso ei effeithiau | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o ystumiadau mewn marchnadoedd ac enghreifftiau o fethiant y llywodraeth |

© WJEC CBAC Cyf.

**Macro-economeg**

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddeall defnyddio modelau economaidd i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o faterion macro-economeg. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o gyd-destun hanesyddol syniadau a damcaniaethau economaidd, a deall amcanion a pholisïau llywodraeth mewn perthynas â sefydlogrwydd a thwf yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan gynnwys cyfeiriad at economi Cymru.

Mae angen i ddysgwyr ddeall a gwerthuso'r gwahanol opsiynau polisi sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau.

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o brif faterion economaidd sydd wedi digwydd ers 1990 hyd heddiw.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Theori macro-economaidd
- Amcanion macro-economaidd
- Arfau polisi
- Masnach ryngwladol.

© WJEC CBAC Cyf.

**Theori Macro-economaidd**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Model llif cylchol incwm | Egluro'r llifoedd yn y model llif cylchol a deall y dylent fod yn gyfartal (incwm = cynnyrch = gwariant)<br><br>Egluro chwistrelliadau i mewn i'r llif cylchol a gollyngiadau allan ohono<br><br>Defnyddio'r model i egluro'r cysyniad cydbwysedd incwm gwladol ac i egluro sut gallai newidiadau mewn chwistrelliadau a gollyngiadau arwain at newidiadau yn lefel cydbwysedd incwm gwladol, ac felly egluro proses y lluosydd | **Ni** fydd yn ofynnol i ddysgwyr gyfrifo'r lluosydd |
| Unedau'r galw cyfanredol (GC) | Diffinio unedau'r galw cyfanredol: treuliant, buddsoddiant, gwariant y llywodraeth ac allforion net (allforion minws mewnforion)<br><br>Egluro'r ffactorau sy'n effeithio ar lefelau treuliant a buddsoddiant yn yr economi | Dylai dysgwyr egluro pwysigrwydd ffactorau fel incwm ac elw, cyfoeth, cyfraddau llog, disgwyliadau a threthi<br><br>**Nid** yw'n ofynnol gwybod damcaniaeth Keynesaidd y ffwythiant treuliant, effeithlonrwydd ffiniol cyfalaf ac effaith y cyflymydd |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Y ffwythiant GC | Deall pam bydd ffwythiant GC yn goleddu i lawr o’r chwith i’r dde<br><br>Deall y gall newidiadau yn unedau’r GC achosi i’r ffwythiant symud | Mae disgwyl i ddysgwyr egluro o leiaf un o'r canlynol: yr effaith balans real, yr effaith masnach a’r effaith cyfradd llog |
| Ffwythiant y cyflenwad cyfanredol (CC) | Deall siâp cromlin Keynesaidd cyflenwad cyfanredol y tymor hir (CCTH)<br><br>Deall y ffactorau a allai arwain at symud yn y CCTH | Mae disgwyl i ddysgwyr sylweddoli bod y CCTH yn fertigol ar lefel cynnyrch cyflogaeth lawn<br><br>Mae'r rhain yn cynnwys: newidiadau ym maint, ansawdd ac effeithlonrwydd y defnydd o ffactorau cynhyrchu, newidiadau yng nghyflwr technoleg a newidiadau yn hyblygrwydd marchnadoedd ffactorau<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut gallai newidiadau mewn arfau polisi gael eu defnyddio i arwain at symudiadau o'r fath |
| Dadansoddi GC/CC | Darlunio ac egluro sut mae GC a CC yn rhyngweithio i bennu lefel cydbwysedd cynnyrch, cyflogaeth a phrisiau yn y tymor hir | Mae angen dadansoddiad diagramatig |

© WJEC CBAC Cyf.

**Amcanion Macro-economaidd**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Amcanion polisi'r llywodraeth | Egluro'r prif amcanion macro-economaidd a gwrthdaro posibl rhwng amcanion polisi | Dylai dysgwyr ddeall pam mae llywodraethau wedi ceisio cyflawni chwyddiant isel, lefelau isel o ddiweithdra, twf economaidd cynaliadwy a chydbwysedd yng nghyfrif cyfredol y fantol daliadau |

© WJEC CBAC Cyf.

**Arfau polisi**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Polisi cyllidol** | | |
| Fframwaith | Deall pwrpas a strwythur cyffredinol y gyllideb | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o brif feysydd gwariant y llywodraeth a ffynonellau derbyniadau |
| | Dadansoddi effaith bosibl newidiadau mewn trethi a gwariant ar yr economi gan ddefnyddio diagramau GC/CC a chromlin Laffer | Dylai dysgwyr allu egluro'r gwahaniaethau rhwng gwariant cyfredol a gwariant cyfalaf a rhwng trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol a'u dymunoldeb cymharol |
| Polisi cyllidol ochr-alw | Egluro sut mae economegwyr Keynesaidd yn credu y gall ac y dylai polisi cyllidol gael ei ddefnyddio i reoli lefel y galw cyfanredol yn yr economi o dan amgylchiadau penodol | Dylai dysgwyr allu esbonio'r syniad hwn gan ddefnyddio diagramau GC/CC<br><br>Dylai dysgwyr allu gwerthuso'r defnydd o bolisi cyllidol ochr-alw o ran ei effeithiolrwydd a sgil effeithiau posibl, er enghraifft, ar ddyled y sector cyhoeddus |
| Polisi cyllidol ochr-gyflenwad | Egluro y gellir defnyddio polisi cyllidol i gyflawni amcanion polisi drwy weithredu ar yr ochr gyflenwad yn y tymor hir (gallai enghreifftiau gynnwys dylanwadu ar gymhellion i weithio ac i fuddsoddi, gwella isadeiledd) | Dylai dysgwyr allu gwerthuso effeithiolrwydd y mathau hyn o bolisi |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Polisi ariannol** | | |
| Fframwaith | Deall rôl Banc Lloegr wrth greu sefydlogrwydd ariannol, a'i statws fel y benthyciwr terfynol<br><br>Deall pwrpas targed chwyddiant y Banc, ei natur gymesur ac unrhyw amcanion eraill y gallai fod angen i'r Banc eu dilyn | |
| Gweithredu polisi ariannol a sefydlogrwydd ariannol | Cyfraddau llog | |
| | Deall sut gall newidiadau yng nghyfraddau llog gael eu defnyddio i gyflawni amcanion y Banc, a'r ffactorau y bydd y Banc yn debygol o'u hystyried wrth osod cyfraddau llog sylfaenol | Dylai dysgwyr allu gwerthuso effaith debygol newidiadau yng nghyfraddau llog ac effeithiolrwydd cyffredinol rheoli cyfraddau llog fel arf polisi |
| | Deall sut gall newidiadau yng nghyfraddau llog effeithio ar yr economi real a chwyddiant | Dylai dysgwyr allu defnyddio diagramau GC/CC i gefnogi eu dadansoddiad a'u gwerthusiad |
| | Trafod i ba raddau mae newidiadau yng nghyfraddau llog yn debygol o effeithio ar y gyfradd cyfnewid | Gallai dysgwyr gymryd y cyfle i ymchwilio p'un ai a yw cyfraddau llog a bennir gan Fanc Lloegr yn briodol ar gyfer holl ardaloedd y DU, yn enwedig economi Cymru |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Cyfraddau cyfnewid a pholisi cyfradd cyfnewid** | | |
| Cyfraddau cyfnewid yn y farchnad rydd | Egluro y bydd y gyfradd cyfnewid, mewn system arnofio rhydd, yn cael ei phennu gan rymoedd galw a chyflenwad | Dylai dysgwyr ddeall bod galw am arian cyfred yn hafal i allforion a mewnlifoedd cyfalaf, a bod cyflenwad yn hafal i fewnforion ac all-lifoedd cyfalaf |
| | Defnyddio diagramau galw a chyflenwad i ddadansoddi a gwerthuso'r ffactorau a allai achosi i gyfraddau cyfnewid arbrisio neu ddibrisio | Gallai ffactorau o'r fath gynnwys cyfraddau llog, llacio meintiol, llifoedd masnach, hyder, materion lloches ddiogel a hapfasnach |
| | Gwerthuso effeithiau posibl newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid ar yr amcanion polisi | Dylai dysgwyr allu defnyddio diagramau GC/CC i gefnogi eu dadansoddiad |
| | Gwerthuso effeithiau micro-economaidd newidiadau cyfraddau cyfnewid ar gartrefi a chwmnïau | Dylai dysgwyr ddeall ystyr mynegrif cyfradd cyfnewid |
| Polisi cyfradd cyfnewid | Deall sut gall awdurdodau ariannol ddylanwadu ar werth cyfradd cyfnewid mewn system arnofio (arnofio ‘ymyrrol’) | |
| | Gwerthuso manteision ac anfanteision polisïau sy'n dal cyfraddau cyfnewid yn uwch neu’n is na’u lefelau marchnad rydd | |

| | | |
|---|---|---|
| **Polisïau ochr-gyflenwad** | Deall ystyr polisïau ochr-gyflenwad, a deall sut mae modd eu defnyddio i geisio cynyddu twf tuedd/CCTH yn yr economi yn ogystal â hyblygrwydd marchnadoedd cynnyrch a ffactorau | Dylai dysgwyr allu gwerthuso polisïau ochr-gyflenwad o ran eu heffeithiolrwydd a'u sgil effeithiau posibl<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso effaith polisïau ochr-gyflenwad gan ddefnyddio dadansoddiad GC/CC a ffiniau posibilrwydd cynhyrchu |

© WJEC CBAC Cyf.

**Masnach ryngwladol**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Masnach rydd a diffynnaeth | Gwerthuso buddion a chostau masnach rydd | **Nid** yw'n ofynnol cael gwybodaeth ddamcaniaethol am fantais gymharol |
| | Disgrifio'r prif fathau o ddiffynnaeth; tollau, cwotâu a rhwystrau eraill | Dylai effaith toll gael ei dangos ar ffurf diagram |
| | Gwerthuso buddion a chostau diffynnaeth | **Nid** yw'n ofynnol cael gwybodaeth sefydliadol am y farchnad sengl a Chyfundrefn Masnach y Byd |

© WJEC CBAC Cyf.

## 2.2 UNEDAU U2

Mae'r Safon Uwch lawn yn cynnwys yr unedau UG a'r unedau U2. Wrth asesu'r Safon Uwch lawn caiff ei dybio y bydd dysgwyr yn gallu defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys UG.

**Uned 3: Archwilio Ymddygiad Economaidd**

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
30% o'r cymhwyster

**Uned 4: Gwerthuso Modelau Economaidd a Pholisïau Economaidd**

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster

Ar gyfer Safon Uwch bydd disgwyl i ddysgwyr ddefnyddio modelau micro a macro mwy cymhleth wedi'u cymhwyso at amrywiaeth ehangach o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Bydd gofyn i ddysgwyr ddatblygu dull mwy beirniadol o werthuso modelau economaidd a phroblemau economaidd cyfredol. Bydd y traethodau synoptig yn defnyddio elfennau gwahanol o gynnwys y fanyleb ac yn gwerthuso dadleuon a damcaniaethau amgen.

Mae cynnwys y pwnc yn U2 wedi'i rannu'n dri maes astudio eang:

- Micro-economeg
- Macro-economeg
- Masnach a Datblygu.

**Micro-economeg**

Yn y fanyleb UG, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddeall bod economeg yn astudiaeth o adnoddau prin a deall sut mae'r adnoddau hyn yn cael eu dyrannu i'w defnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn economi marchnad. Roedd disgwyl i ddysgwyr ddeall ymddygiad economaidd defnyddwyr, cynhyrchwyr a llywodraethau mewn marchnadoedd cystadleuol ac anghystadleuol. Gwnaed dysgwyr yn ymwybodol o dybiaethau'r model galw a chyflenwad a byddant wedi egluro'r ffordd mae'r farchnad yn gweithio gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau. Bydd dysgwyr wedi astudio buddion marchnadoedd a sut maen nhw'n gweithio a pham gallai fod yn bosibl iddynt fethu.

Yn ogystal â'r cynnwys UG, dylai dysgwyr U2 ddeall y ffordd mae prisiau a chynnyrch yn cael eu gosod mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cystadleuol ac anghystadleuol, a dylent allu modelu hyn gan ddefnyddio modelau costau a derbyniadau. Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol efallai na fydd amcanion asiantau economaidd gwahanol bob amser yn uchafu syml, ac y gallai'r amcanion hyn newid yn ôl amser ac amgylchiadau. Dylai dysgwyr ddeall y ffyrdd y mae angen i lywodraethau weithredu er mwyn rheoli ymddygiad cwmnïau, ac i ba raddau.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Costau, derbyniadau ac elw
- Strwythurau marchnad

© WJEC CBAC Cyf.

**Costau, derbyniadau ac elw**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Costau, derbyniadau ac elw | Egluro deddf adenillion lleihaol<br><br>Gwahaniaethu rhwng costau sefydlog a newidiol a gallu gwahaniaethu rhwng y tymor byr a'r tymor hir<br><br>Diffinio a chyfrifo cyfanswm gwerthoedd, gwerthoedd cyfartalog a gwerthoedd ffiniol ar gyfer derbyniadau a chostau<br><br>Egluro ac esbonio darbodion ac annarbodion maint mewnol ac allanol<br><br>Egluro'r cysyniad uchafu elw (gan ddefnyddio derbyniadau ffiniol a chost ffiniol)<br><br>Diffinio a deall y gwahaniaeth rhwng elw normal ac annormal | Mae'n ofynnol cael dealltwriaeth rifiadol a diagramatig o gyfanswm cynnyrch, cynnyrch cyfartalog a chynnyrch ffiniol<br><br>Dylai dysgwyr ddeall efallai na fydd adenillion lleihaol yn cychwyn ar unwaith<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiad rhwng cynnyrch ffiniol llafur a chostau ffiniol cwmni, er enghraifft, wrth i gynnyrch ffiniol llafur ostwng, mae'r costau ffiniol yn cynyddu wrth i fwy o weithwyr gael eu cyflogi<br><br>Dylid defnyddio diagramau priodol i esbonio'r holl gysyniadau yn ymwneud â chostau a derbyniadau (mae'r gwahaniaeth rhwng y tymor byr a'r tymor hir yn ofynnol)<br><br>Dylai dysgwyr allu deillio cromlin cost gyfartalog y tymor hir<br><br>Dylai dysgwyr ddeall bod economegwyr yn diffinio elw yn wahanol i fusnesau, hynny yw, elw cyfrifyddol o'i gymharu ag elw economaidd |
| Twf cwmnïau | Deall sut a pham gallai cwmnïau dyfu<br><br>Deall mathau o integru/ cydsoddiadau (llorweddol, fertigol a chyd-dyriad) | Dylai dysgwyr ddeall y gwahaniaeth rhwng twf mewnol a thwf allanol<br><br>Dylai dysgwyr allu gwerthuso costau a buddion posibl twf/cydsoddiadau |
| Effeithlonrwydd | Egluro ac esbonio'r cysyniadau effeithlonrwydd cynhyrchiol a dyrannol | Dylai dysgwyr allu esbonio effeithlonrwydd cynhyrchiol a dyrannol trwy ddiagramau<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o effeithlonrwydd dynamig ac effeithlonrwydd Pareto |

© WJEC CBAC Cyf.

**Strwythurau marchnad**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cefndir strwythurau marchnad | Egluro bod strwythur marchnad yn dibynnu ar nifer y cwmnïau a'u gallu i fynd i mewn ac allan o farchnadoedd yn rhydd (cystadladwyedd) (<u>contestibility</u>) | Dylai dysgwyr ddeall y gallai rheoleiddwyr effeithio ar y graddau o gystadladwyedd mewn marchnad<br><br>Dylai dysgwyr allu gwahaniaethu rhwng rhwystrau strwythurol ac ymddygiadol i fynediad, er enghraifft, costau cychwyn uchel yn erbyn prisio i rwystro mynediad |
| Amcanion busnes | Egluro sut gall cwmnïau fod ag amcanion gwahanol, fel uchafu elw, derbyniadau neu'r gyfran o'r farchnad, goroesi, amcanion cymdeithasol a chymunedol | Dylai dysgwyr ddeall gwahanol amcanion y gwahanol randdeiliaid a bod yn ymwybodol o'r cysyniad o ddigonoli (*satisficing*) |
| Cystadleuaeth berffaith | Diffinio cystadleuaeth berffaith ac egluro pwysigrwydd y tybiaethau sy'n sail iddi<br><br>Egluro ac esbonio gyda diagramau pris a chynnyrch cytbwys y tymor byr a'r tymor hir i'r cwmni a'r diwydiant<br><br>Egluro a gwerthuso effeithlonrwydd marchnadoedd perffaith gystadleuol | <br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r tymor byr yn addasu i'r tymor hir<br><br>Dylai dysgwyr allu gwerthuso marchnadoedd perffaith gystadleuol gan ddefnyddio effeithlonrwydd dyrannol a chynhyrchiol |
| Cystadleuaeth fonopolaidd | Diffinio cystadleuaeth fonopolaidd ac egluro pwysigrwydd y tybiaethau sy'n sail iddi<br><br>Egluro ac esbonio, gyda diagramau, bris a chynnyrch cytbwys y tymor byr a'r tymor hir i'r cwmni<br><br>Egluro a gwerthuso effeithlonrwydd marchnadoedd sy'n fonopolaidd gystadleuol | Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd ffactorau nad ydynt ar sail pris fel cynhyrchion sydd wedi'u gwahaniaethu a hysbysebu mewn cystadleuaeth fonopolaidd<br><br>Dylai dysgwyr ddeall sut mae'r tymor byr yn addasu i'r tymor hir<br><br>Dylai dysgwyr allu gwerthuso cystadleuaeth fonopolaidd gan ddefnyddio effeithlonrwydd dyrannol a chynhyrchiol |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Monopoli | Diffinio monopoli ac egluro pwysigrwydd y tybiaethau sy’n sail iddi<br><br>Cymharu, gan ddefnyddio diagramau, safleoedd cydbwysedd y tymor byr a’r tymor hir mewn cystadleuaeth berffaith â safleoedd cydbwysedd monopoli yn y tymor byr a’r tymor hir | Dylai dysgwyr ddeall y cysyniad monopoli pur |
| | Egluro a gwerthuso costau a buddion posibl monopoli, er enghraifft, gwahaniaethu ar sail pris, diffyg cystadladwyedd effeithlonrwydd yn erbyn buddion darbodion maint a monopoli naturiol | Dylai dysgwyr ddeall y cysylltiadau â’r gallu i gystadlu’n rhyngwladol<br><br>Dylai dysgwyr allu defnyddio diagramau i esbonio gwahaniaethau mewn effeithlonrwydd<br><br>**Nid** yw gwybodaeth am raddau gwahanol o wahaniaethu ar sail pris yn ofynnol<br><br>**Ni** fydd yn ofynnol defnyddio dull diagramatig tuag at wahaniaethu ar sail pris |
| Oligopoli | Egluro prif nodweddion marchnadoedd oligopolaidd a’r cysyniad cyd-ddibyniaeth<br><br>Egluro y gall marchnadoedd oligopolaidd gael eu nodweddu gan gystadlu ar sail pris a chystadlu nad yw ar sail pris, arwainbrisio, cydgynllwynio a rhyfeloedd prisiau | Mae'n ofynnol defnyddio cymarebau crynhoad syml i fesur y graddau o rym yn y farchnad |
| | Egluro a gwerthuso costau a buddion posibl oligopoli | Dylid deall effeithlonrwydd dyrannol a chynhyrchiol marchnadoedd oligopolaidd<br><br>Dylai dysgwyr ddeall pwysigrwydd cwmnïau dominyddol yng nghyd-destun arloesi a gallu’r economi cyfan i gystadlu |
| | Defnyddio damcaniaeth gemau i werthuso ymddygiad cyd-ddibynnol mewn marchnadoedd oligopolaidd | Dylai dysgwyr allu pennu cydbwysedd Nash mewn matrics |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Polisi cystadleuaeth | Egluro'r rhesymau pam gallai llywodraethau fod yn bryderus am gystadleuaeth, monopoli a chydsoddiadau mewn diwydiant | **Nid** yw'n ofynnol gwybod yn fanwl am ddeddfau cystadleuaeth y DU a'r UE |
| | Deall rôl awdurdodau cystadleuaeth a rheoleiddwyr wrth hyrwyddo cystadleuaeth a chystadladwyedd mewn marchnadoedd | Dylai dysgwyr allu gwerthuso i ba raddau mae cystadleuaeth a chystadladwyedd yn ddymunol<br><br>**Nid** yw'n ofynnol gwybod yn fanwl am bolisïau rheoleiddio |
| Preifateiddio | Egluro'r ffordd y gall preifateiddio gynyddu cystadleuaeth | Dylai dysgwyr ddeall y gall preifateiddio fod ar sawl ffurf ar wahân i drosglwyddo perchnogaeth asedau sy'n cael eu rhedeg gan y wladwriaeth i'r sector preifat |
| | Gwerthuso effeithiau preifateiddio ar gystadleuaeth, effeithlonrwydd, prisiau a'r economi cyfan | Dylai dysgwyr ddeall y dadleuon dros ailwladoli (*renationalisation*) |

© WJEC CBAC Cyf.

**Macro-economeg**

Yn y fanyleb UG, roedd yn ofynnol i ddysgwyr ddeall defnyddio modelau economaidd i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o faterion macro-economeg. Datblygodd y dysgwyr ymwybyddiaeth o gyd-destun hanesyddol syniadau a damcaniaethau economaidd, a byddant wedi deall amcanion a pholisïau llywodraeth mewn perthynas â sefydlogrwydd a thwf yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, gan gynnwys cyfeiriad at economi Cymru.

Yn ogystal â'r cynnwys UG, ar gyfer lefel U2 mae angen i ddysgwyr ddeall bod dadl ddamcaniaethol arwyddocaol dros i ba raddau y gall economi gyflawni cydbwysedd cyflogaeth lawn – yn benodol, y gred ymysg Keynesiaid y gall economïau gyrraedd cydbwysedd yn is na chyflogaeth lawn o'i gymharu ag economegwyr Neo-Glasurol sy'n credu y bydd economi yn addasu'n awtomatig i gydbwysedd cyflogaeth lawn. Mae angen i ddysgwyr ddeall a gwerthuso'r gwahanol opsiynau polisi sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau o ganlyniad i'r gwahaniaeth barn hwn. Bydd angen i ddysgwyr ddeall a gwerthuso'r gwahanol opsiynau polisi sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau.

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o brif faterion economaidd sydd wedi digwydd ers 1990 hyd heddiw.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Theori macro-economaidd
- Amcanion macro-economaidd
- Arfau polisi.

© WJEC CBAC Cyf.

**Theori Macro-economaidd**

Mae'r cynnwys sy'n cael ei gyflwyno yma yn adeiladu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafodd eu meithrin yn y fanyleb UG. Yn benodol, mae'n archwilio cromlin cyflenwad cyfanredol y tymor byr, y gwahaniaethau rhwng safbwyntiau Keynesiaid a Neo-Glasurwyr ar gromlin cyflenwad cyfanredol y tymor hir, y gwrthddewis *(trade-off)* posibl rhwng chwyddiant a diweithdra (Cromlin Phillips) a chromlin Phillips y tymor hir.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cyflenwad cyfanredol y tymor byr (CCTB) | Deall pam caiff ei dybio bod y ffwythiant CCTB yn goleddu i fyny o’r chwith i’r dde | Dylai dysgwyr ddeall y tybiaethau y tu ôl i'r dadansoddiad CCTB, fel prisiau mewngyrch sefydlog, cynhyrchedd a thechnoleg<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol bod CCTB ar y ffurf hon yn gysylltiedig ag economegwyr Arianyddol a Neo-Glasurol |
| | Deall pam gallai ffwythiant CCTB symud | Gallai ffactorau gynnwys newidiadau yng nghostau llafur, newidiadau ym mhrisiau cynwyddau, newidiadau yng ngwerth y gyfradd cyfnewid, trethi a chymorthdaliadau |
| Cyflenwad cyfanredol y tymor hir (CCTH) | Deall bod gwahaniaethau rhwng safbwyntiau Keynesiaid a Neo-Glasurwyr am sut bydd y gromlin CC yn edrych yn y tymor hir | |
| | Egluro'r safbwynt Neo-Glasurol o'r broses a allai arwain at addasiad yr economi i gydbwysedd tymor hir | Dylai dysgwyr ddeall tybiaethau marchnadoedd cynnyrch a ffactorau hyblyg sydd yn sail i'r dadansoddiad hwn |
| | Deall bod economegwyr Keynesaidd yn anghytuno â'r broses hon o addasu oherwydd materion fel marchnadoedd ffactorau anhyblyg ('cyflog anhyblyg', ac ati) ac o'r herwydd, ei bod yn bosibl na fydd y ffwythiant CCTH yn fertigol ar lefel cynnyrch cydbwysedd | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cromlin Phillips y tymor byr | Egluro y gallai fod gwrthddewis rhwng chwyddiant a diweithdra yn y tymor byr a bod gwrthddewisiadau o'r fath wedi digwydd yn y DU | Mae angen dadansoddiad diagramatig |
| Cromlin Phillips y tymor hir | Dadlau bod economegwyr Neo-Glasurol yn credu nad yw Cromlin Phillips y tymor byr yn sefydlog oherwydd rôl disgwyliadau; yn y tymor hir, bydd ceisio cadw diweithdra o dan ei gyfradd naturiol/cyfradd diweithdra chwyddiant sefydlog (*NAIRU*) yn arwain at chwyddiant cynyddol a phan fydd yr economi yn dychwelyd i'w gyfradd naturiol/*NAIRU* yn y diwedd bydd yn gwneud hynny gyda lefel uwch o chwyddiant<br><br>Deall bod newidiadau ar yr ochr-gyflenwad (naill ai'n ffafriol neu'n anffafriol) yn gallu achosi i safle cromlin Phillips y tymor hir symud, ac y gall newidiadau i bolisi economaidd arwain at symudiadau o'r fath | Dylai dysgwyr ddeall rôl disgwyliadau chwyddiannol yn y model hwn<br><br>Mae angen dadansoddiad diagramatig |

© WJEC CBAC Cyf.

**Amcanion Macro-economaidd**

Yn y fanyleb UG mae'r cynnwys ar gyfer amcanion polisi'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar y gwrthdaro rhwng y prif amcanion economaidd sef twf economaidd, diweithdra, chwyddiant a'r fantol daliadau. Mae'r cynnwys sy'n cael ei gyflwyno yn yr U2 yn rhagdybio bod dysgwyr yn gwbl gyfarwydd â'r gwrthdaro hynny ond mae'n archwilio'n fanwl y wybodaeth a'r ddealltwriaeth feirniadol sy'n cael eu cyflwyno gan bob un o'r amcanion hynny. Yn fras, wrth astudio twf economaidd bydd dysgwyr yn ystyried twf gwirioneddol yn erbyn twf posibl, achosion, buddion a chostau twf. Bydd dysgwyr yn edrych ar achosion a chostau economaidd a chymdeithasol diweithdra a datrysiadau posibl i ddiweithdra. Gyda chwyddiant bydd dysgwyr yn delio â mesur, achosion a chostau chwyddiant yn ogystal â nodi datrysiadau posibl. Mae'r fantol daliadau yn archwilio mesur, achosion a chanlyniadau anghydbwysedd cyfrif cyfredol a datrysiadau posibl ar gyfer diffygion cyfrif cyfredol.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Twf economaidd** | | |
| Twf economaidd gwirioneddol yn erbyn posibl | Egluro'r gwahaniaethau rhwng newidiadau mewn cynnyrch mewnol crynswth (CMC) (twf gwirioneddol) a thwf posibl a deall bod economegwyr, trwy gyfeirio at 'dwf economaidd', yn cyfeirio'n gyffredinol at gynnydd yng ngallu cynhyrchiol yr economi yn hytrach na newidiadau tymor byr yn lefel yr incwm gwladol<br><br>Egluro'r gwahaniaethau rhwng twf gwirioneddol a thwf posibl gan ddefnyddio'r cysyniadau bylchau cynnyrch positif a negatif a'r gylchred fusnes<br><br>Deall ystyr y term 'enciliad' | Dylai dysgwyr allu esbonio twf gwirioneddol a thwf posibl mewn diagramau gan ddefnyddio dadansoddi ffiniau posibilrwydd cynhyrchu a GC/CC |
| Achosion twf | Deall y gall twf gael ei achosi gan newidiadau mewn ffactorau fel maint, ansawdd ac effeithlonrwydd y defnydd o ffactorau cynhyrchu, newidiadau yng nghyflwr technoleg a newidiadau yn hyblygrwydd marchnadoedd ffactorau | Dylai dysgwyr allu trafod pwysigrwydd y ffactorau hyn a thrafod i ba raddau mae newidiadau mewn arfau polisi yn gallu cael eu defnyddio i greu twf |
| Buddion a chostau twf | Deall pam gallai twf fod yn fuddiol i economi o ran effaith ar gartrefi, llywodraethau a chwmnïau | Dylai dysgwyr allu gwerthuso'r buddion hyn o ran pa mor gyfartal y gellir rhannu buddion o'r fath, costau ymwad twf, cynaliadwyedd twf a sgil effeithiau twf o ran gwrthdaro ag amcanion polisi eraill |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Diweithdra** | | |
| Mesur a mathau | Deall y gellir mesur diweithdra mewn ffyrdd gwahanol a bod yn ymwybodol o'r prif ddulliau cyfredol a'r problemau sydd ynghlwm wrth fesur diweithdra'n fanwl gywir | Dylai dysgwyr ddeall y gwahaniaethau rhwng unigolion sydd yn weithredol yn yr economi a'r rhai hynny nad ydynt yn weithredol, a dylent ddeall ystyr y llafurlu<br><br>Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o wahaniaethau mewn cyfraddau diweithdra yng Nghymru ac economïau eraill, yn ogystal â'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau amrywiol yng Nghymru |
| Costau | Archwilio costau diweithdra; gallai'r rhain fod yn economaidd ac yn gymdeithasol a gallant fod yn berthnasol i gartrefi, llywodraethau, cwmnïau a'r economi | |
| Achosion | Deall achosion ochr-alw, fel diweithdra cylchol, yn cael ei yrru gan ostyngiad yn lefel CMC. Mae gan wahanol ysgolion o feddwl safbwyntiau gwahanol am ba mor dros dro mae hyn yn debygol o fod | Dylai dysgwyr ddeall bod gan economegwyr Keynesaidd a Neo-Glasurol safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r gwir achosion sy'n sail i ddiweithdra |
| | Deall bod achosion ochr-gyflenwad yn cael eu gyrru gan broblemau mewn marchnadoedd ffactorau, fel anhyblygrwydd galwedigaethol a daearyddol, diffyg cymhelliad i weithio a diweithdra cyflog real | Dylai dysgwyr ddeall cyfradd naturiol diweithdra |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Datrysiadau | Deall y bydd datrysiadau i ddiweithdra yn dibynnu ar ei achosion a’i natur, ond y gall dulliau gael eu nodweddu'n fras fel naill ai ochr-alw neu ochr-gyflenwad<br><br>• Datrysiadau ochr-alw<br><br>Deall, mewn achosion lle mae bwlch cynnyrch negatif yn bodoli, y gall llywodraethau ddefnyddio polisi cyllidol ac ariannol i gynyddu lefel y galw cyfanredol<br><br>Gwerthuso priodoldeb ac effeithiolrwydd posibl y math hwn o ddatrysiadau<br><br>• Datrysiadau ochr-gyflenwad<br><br>Egluro a gwerthuso dulliau ochr-gyflenwad posibl o ostwng diweithdra, wedi'u targedu at broblemau penodol yn y farchnad lafur | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o bolisïau i wella symudedd llafur a hyblygrwydd y farchnad lafur |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Chwyddiant a Dadchwyddiant** | | |
| Mesur a chyfrifo | Deall sut mae chwyddiant yn cael ei gyfrifo trwy newidiadau pwysol mewn indecsau pris, yn gyffredinol dros gyfnod o ddeuddeg mis<br><br>Nodi'r prif ffyrdd o fesur chwyddiant sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd a'r gwahaniaethau rhyngddynt | Dylai dysgwyr allu cyfrifo indecsau pris syml a deall pwrpas pwysiadau<br><br>Dylai dysgwyr allu cyfrifo a dehongli mynegrifau, yng nghyd-destun chwyddiant ac mewn meysydd eraill |
| Achosion | Deall esboniadau galw-dynnu a chostwthiol o chwyddiant<br><br>Egluro a gwerthuso damcaniaeth stoc arian | Dylai dysgwyr ddeall rôl disgwyliadau yn cynnal a gyrru chwyddiant trwy fecanweithiau fel y chwydd-dro prisiau a chyflogau |
| Costau | Deall y gall prisiau sydd yn codi greu costau, ond y bydd y costau hyn yn dibynnu ar lefel chwyddiant, achos chwyddiant ac i ba raddau yr oedd wedi ei ragweld | Mae costau yn cynnwys effeithiau ailddosrannol, effeithiau macro-economaidd ac effeithiau effeithlonrwydd |
| Datrysiadau | Egluro a gwerthuso ymatebion posibl i'r mater o chwyddiant yn nhermau pa mor effeithiol neu ddymunol mae'r datrysiadau'n debygol o fod | Gallai dulliau gynnwys defnyddio polisi cyllidol a/neu ariannol i reoli GC/y cyflenwad arian, polisïau ochr-gyflenwad i wella hyblygrwydd marchnadoedd llafur a chynnyrch, rheolaeth uniongyrchol ar gyflogau a phrisiau ac ymdrechion i leihau disgwyliadau chwyddiannol |
| Dadchwyddiant | Deall y gall dadchwyddiant, fel sy'n wir am chwyddiant, gael ei yrru naill ai gan yr ochr-alw neu'r ochr-gyflenwad a bydd yr effeithiau'n dibynnu ar yr achos - mae'n bosibl ystyried pwysau dadchwyddol a achosir gan welliannau ochr-gyflenwad yn fuddiol o dan rai amgylchiadau<br><br>Deall y gall dadchwyddiant galw achosi problemau mawr i economïau a deall costau dadchwyddiant o'r fath i gartrefi, llywodraethau a chwmnïau yn ogystal â'r anawsterau mae llywodraethau yn eu hwynebu wrth geisio dod â dadchwydd-droeon i ben unwaith maent wedi cydio | |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Y fantol daliadau** | | |
| Mesur | Deall ystyr y fantol daliadau<br><br>Deall mai cyfanswm y fantol daliadau ar y cyfan yw sero a bydd diffyg cyfrif cyfredol neu warged cyfrif cyfredol yn cael ei hafalu gan lifoedd cyfatebol yn y cyfrifon cyfalaf/ariannol | **Nid** yw'n ofynnol gwybod yn fanwl am is-unedau'r fantol daliadau |
| Anghydbwysedd cyfrif cyfredol: achosion | Deall pam mae gwledydd yn debygol o fod â diffygion (neu wargedion) cyfrif cyfredol a beth yw ystyr diffyg (neu warged) strwythurol | Gall ffactorau gynnwys: cynhyrchedd, costau ffactorau, cyfraddau cyfnewid, strwythur diwydiannol, prisiau cynwyddau, polisïau diffynnaeth a ffynonellau mantais gymharol |
| | Deall y cysylltiad posibl rhwng newidiadau yn nhelerau masnach a mantol gyffredinol yn y cyfrif cyfredol | Dylai dysgwyr allu cyfrifo'r mynegrif telerau masnach |
| Anghydbwysedd cyfrif cyfredol: effeithiau | Gwerthuso canlyniadau diffyg/gwarged cyfrif cyfredol | Mae deall natur y diffyg/gwarged, ei achosion a natur y mewnlifoedd cyfalaf cydadferol yn debygol o fod yn arwyddocaol wrth werthuso |
| Datrysiadau i ddiffygion cyfrif cyfredol | Gwerthuso dulliau posibl o ddelio â diffyg cyson yn y cyfrif cyfredol | Gallai'r rhain gynnwys polisïau cyfradd cyfnewid, polisïau dadchwyddiannol, diwygiad ochr-gyflenwad a diffynnaeth |

© WJEC CBAC Cyf.

**Arfau polisi**

**Polisi cyllidol**

Yn y fanyleb UG bydd dysgwyr wedi archwilio sut mae polisi cyllidol yn gallu cael ei ddefnyddio i gyflawni amcanion polisi. Yn U2 bydd angen i ddysgwyr ddeall y berthynas rhwng diffyg cyllidol a'r ddyled wladol (dyled y sector cyhoeddus) a thrafod i ba raddau mae'n briodol tynhau'r polisi cyllidol yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd fel ffordd o leihau'r diffyg cyllidol.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| **Rheoli'r ddyled wladol (dyled y sector cyhoeddus)** | | |
| Mesur | Deall y berthynas rhwng y diffyg cyllidol a'r ddyled wladol (dyled y sector cyhoeddus) | Dylai dysgwyr ddeall y gwahaniaeth rhwng diffygion strwythurol a chylchol |
| Achosion | Deall y gallai diffygion fod o ganlyniad i naill ai polisi llywodraeth dewisol neu bolisi llywodraeth awtomatig | |
| Goblygiadau | Egluro pam mae llywodraethau wedi bod yn bryderus am lefelau uchel o ddyled y sector cyhoeddus<br><br>Gallai pryderon gynnwys cost ymwad taliadau llog, risg israddio credyd, materion yn ymwneud â hyder ynglŷn ag ailariannu a'r risg o allwthio a thwf arafach | |
| Datrysiadau | Disgrifio i ba raddau mae'n briodol tynhau polisi cyllidol yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd fel ffordd o leihau'r diffyg cyllidol | Dylai dysgwyr allu gwerthuso i ba raddau mae'r pryderon hyn yn rhesymol ac felly p'un ai a yw dyled bob amser yn rhywbeth gwael |

© WJEC CBAC Cyf.

**Polisi ariannol**

Yn y fanyleb UG mae ymgeiswyr wedi ystyried rôl Banc Lloegr a sut gellir defnyddio cyfraddau llog i gyflawni amcanion y Banc. Yn U2, rhagdybir bod dysgwyr yn gwbl gyfarwydd â phwysigrwydd cyfraddau llog fel arf rheolaeth ariannol cyn iddynt archwilio arfau ariannol eraill a'r angen am sefydlogrwydd ariannol.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Gweithredu polisi ariannol a sefydlogrwydd ariannol | • Lleddfu meintiol (Q*uantitative Easing / QE)*<br><br>Deall rôl *QE* o fewn y system ariannol a gallu egluro sut mae disgwyl i *QE* weithio<br><br>• Ymyriad uniongyrchol<br><br>Deall y gall banciau canolog ymyrryd yn uniongyrchol yn y system fancio i ysgogi gweithgaredd benthyg, er enghraifft, cyllid ar gyfer benthyg<br><br>Dylai dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso unrhyw newidiadau ychwanegol yng ngweithrediad polisi ariannol sy'n codi dros amser | Dylai dysgwyr allu gwerthuso effaith a risgiau *QE*<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y broses a allai wrthdroi *QE* yn y diwedd<br><br>**Nid** yw'n ofynnol gwybod yn fanwl am fesurau gwahanol o'r cyflenwad arian |
| Sefydlogrwydd ariannol | • Y sector ariannol<br><br>Deall y newidiadau yn strwythur economi'r DU yn y blynyddoedd diweddar, yn enwedig maint a dylanwad cynyddol y sector ariannol<br><br>• Swigod asedau *(Asset bubbles)*<br><br>Egluro, gydag enghreifftiau priodol (er enghraifft, argyfwng ariannol 2007-08), sut gallai swigod asedau godi a beth gallai canlyniadau economaidd swigod o'r fath fod<br><br>• Rôl a phwrpas rheoleiddio<br><br>Deall yr angen i reoleiddio'r system ariannol o ran creu sefydlogrwydd ariannol | Dylai dysgwyr allu gwerthuso i ba raddau mae sector ariannol mawr y DU yn fuddiol i'r economi real<br><br>Nid oes disgwyl i ddysgwyr fod â dealltwriaeth fanwl o'r system reoleiddio ariannol yn y DU |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cyfraddau cyfnewid a pholisi cyfradd cyfnewid**

Mae'r fanyleb UG yn trafod yn gynhwysfawr y gofynion craidd y mae angen i ddysgwyr wybod amdanynt a'u deall o ran cyfraddau cyfnewid a pholisi cyfradd cyfnewid. O ystyried hyn, bydd angen i ddysgwyr U2 ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r cynnwys UG gyda'r gallu i egluro effaith newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid ar y telerau masnach ac arwyddocâd amod Marshall-Lerner ar fantolion masnach yn dilyn dibrisiad neu arbrisiad arian cyfred.

**Polisïau ochr-gyflenwad**

Bydd dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bolisïau ochr-gyflenwad a gafwyd yn UG i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o sut gellir defnyddio polisïau o'r fath i gynyddu cynhyrchedd ac effeithlonrwydd yn yr economi – cyfeiriwch at gynnwys y pwnc ar amcanion polisi.

© WJEC CBAC Cyf.

**Economeg fyd-eang**

Dylai dysgwyr ddeall perfformiad macro-economaidd mewn cyd-destun byd-eang ac integru economaidd dyfnach rhwng gwledydd. Dylai dysgwyr hefyd ddeall pam mae gwledydd yn masnachu a phwysigrwydd globaleiddo i fasnach a datblygiad. Dylai dysgwyr hefyd ddeall y rhwystrau i ddatblygiad economaidd cynaliadwy ymysg gwledydd llai economaidd ddatblygedig (GLlEDd - *LEDCs*) a datrysiadau i'r rhwystrau hyn.

Dylai dysgwyr ddeall bod globaleiddio wedi arwain at gynnydd mewn arbenigaeth fyd-eang, masnach a chynnydd mewn trosglwyddiadau cyfalaf a buddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor (FDI) rhwng gwledydd. Mae globaleiddio hefyd wedi arwain at fwy o symudedd llafur rhyngwladol.

Bydd angen i ddysgwyr astudio'r meysydd cynnwys canlynol:

- Masnach ryngwladol
- Economïau nad ydynt yn y DU
- Datblygiad economaidd.

© WJEC CBAC Cyf.

**Masnach ryngwladol**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
| --- | --- | --- |
| Manteision ac anfanteision masnach rydd | Deall manteision ac anfanteision masnach ryngwladol o safbwynt yr economi yn ei gyfanrwydd ac i gartrefi, cwmnïau a llywodraeth | Dylai dysgwyr allu egluro damcaniaeth mantais gymharol gan ddefnyddio dulliau rhifiadol a graffigol<br><br>Dylai dysgwyr ddeall y gwahaniaeth rhwng mantais absoliwt a mantais gymharol<br><br>Dylai dysgwyr allu egluro ac esbonio'n rhifiadol y telerau masnach |
| Diffynnaeth | Deall y dadleuon o blaid ac yn erbyn gweithredu polisïau diffynnaeth<br><br>Egluro ac esbonio dulliau allweddol o ddiffynnaeth | <br><br><br>Mae’r dulliau yn cynnwys: tollau (angen diagram), cwotâu, cymorthdaliadau, trin cyfraddau cyfnewid a pholisïau gweinyddol/rheoleiddio |
| Globaleiddio | Gwerthuso costau a buddion globaleiddio | |
| Masnach a'r DU | Nodi prif sectorau allforio'r DU<br><br>Gwerthuso i ba raddau mae economi byd-eang sydd yn gynyddol integredig yn fuddiol i'r DU | Dylai dysgwyr ddeall rôl Cyfundrefn Masnach y Byd (*WTO*) wrth blismona cytundebau a thrafodaethau masnach |

© WJEC CBAC Cyf.

**Economïau nad ydynt yn y DU**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| | Mae angen i ddysgwyr ddefnyddio enghreifftiau o economïau heblaw am y DU wrth drafod problemau economaidd | Dylai dysgwyr gael rhywfaint o ddealltwriaeth o broblemau economaidd nodweddiadol sy'n wynebu gwledydd mwy economaidd ddatblygedig (GMEDd - *MEDCs*), GLlEDd (*LEDCs*) ac economïau sy'n datblygu |
| Yr Undeb Ewropeaidd | Dadansoddi a gwerthuso manteision ac anfanteision bod yn aelod o'r UE ar gyfer aelod-wladwriaethau a darpar aelodau | |
| | Gwerthuso a yw ehangiad parhaol yr UE yn fuddiol i aelodau presennol ac aelodau newydd | |
| | Gwerthuso'r buddion a'r anfanteision posibl o fod yn aelod o'r Undeb Economaidd ac Ariannol (*EMU*) | Dylai dysgwyr ddeall strwythur yr *EMU* (ardal yr Ewro), gan gynnwys rôl Banc Canolog Ewrop |
| | Asesu'r *EMU* o ran ei ffit ag ardal arian cyfred optimaidd | |

© WJEC CBAC Cyf.

**Datblygiad economaidd**

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Mesur | Deall ystyr y cysyniad datblygiad economaidd | |
| | Gwerthuso i ba raddau mae newidiadau mewn incwm gwladol yn ddangosydd da o newidiadau yn y lefel o ddatblygiad mewn gwlad | Dylai dysgwyr allu egluro'r gwahaniaeth rhwng CMC a chynnyrch gwladol crynswth (CGC)<br><br>Dylai dysgwyr ddeall ystyr ac arwyddocâd addasiadau paredd gallu prynu |
| | Nodi a deall mesurau posibl eraill o ddatblygiad economaidd, gan gynnwys: | |
| | • yn Mynegrif Datblygiad Dynol (*HDI*) - deall sut mae'r mynegrif yn cael ei gyfrifo a gallu trafod i ba raddau mae'r *HDI* yn gallu dangos gwahaniaethau mewn datblygiad economaidd | Ni fydd disgwyl i ddysgwyr gyfrifo *HDI* |
| | • strwythur economaidd economi | |
| | • dangosyddion mwy anuniongyrchol fel mynediad at iechyd ac addysg, mynediad i'r rhyngrwyd a defnydd ffôn symudol | Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig |

© WJEC CBAC Cyf.

| Cynnwys | Manylion y Cynnwys | Canllawiau ychwanegol |
|---|---|---|
| Rhwystrau | Trafod pam gallai GLlEDd (*LEDCs*) wynebu anawsterau wrth gystadlu â GMEDd (*MEDCs*) ac wrth gynyddu eu lefel o ddatblygiad economaidd<br><br>Egluro a gwerthuso rhwystrau perthnasol; gan gynnwys y canlynol: i ba raddau mae gwaddol ag adnoddau naturiol yn fuddiol neu a oes 'melltith adnoddau' lefelau isel o iechyd ac addysg, disgwyliad oes isel, effaith polisïau masnach GMEDd (*MEDC*), effaith lefelau gwael o isadeiledd, cyfalaf a thechnoleg, effaith gwendid sefydliadol a llywodraethu gwael, lefelau uchel o ddyled y sector cyhoeddus a thwf poblogaeth cyflym | |
| Datrysiadau | Egluro a gwerthuso dulliau posibl o gynyddu'r lefel o ddatblygiad economaidd; gan gynnwys y canlynol:  rhyddfrydoli – symudiad tuag at system sy'n fwy seiliedig ar farchnad rydd gan gynnwys rhyddfrydoli mewnol ac allanol, cymorth rhyngwladol, gostyngiad mewn dyled, ymyriad llywodraeth ar ffurf polisïau fel amnewid mewnforion ac allforion, diwydiannu ac annog buddsoddi uniongyrchol o wledydd tramor (*FDI*) | |

© WJEC CBAC Cyf.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Mae'n rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod yn gallu gwneud y canlynol:

**AA1**
Cyfleu gwybodaeth am dermau/cysyniadau a damcaniaethau/modelau er mwyn dangos eu bod yn deall ymddygiad asiantau economaidd a sut mae materion economaidd yn effeithio ar asiantau economaidd a sut mae'r asiantau yn ymateb i'r rhain.

**AA2**
Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau economaidd i ddangos sut mae materion economaidd yn effeithio ar asiantau economaidd a sut mae'r asiantau yn ymateb i'r rhain.

**AA3**
Dadansoddi materion yn economeg, gan ddangos dealltwriaeth o'u heffaith ar asiantau economaidd.

**AA4**
Gwerthuso dadleuon economaidd a defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol i gefnogi barnau gwybodus ynglyn â materion economaidd.

Dangosir pwysoli'r amcanion asesu isod fel canran o'r Safon Uwch lawn, gyda'r pwysoli UG mewn cromfachau.

| Uned | Pwysoli'r Uned | AA1 | AA2 | AA3 | AA4 |
|---|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 15% (37.5%) | 5% (12%) | 5% (12.5%) | 3% (8%) | 2% (5%) |
| **UG Uned 2** | 25% (62.5%) | 6% (15%) | 5% (12.5%) | 6.5% (16%) | 7.5% (19%) |
| **U2 Uned 3** | 30% | 4% | 12% | 6.5% | 7.5% |
| **U2 Uned 4** | 30% | 12% | 0% | 10% | 8% |
| **Cyfanswm** | **100%** | **27%** | **22%** | **26%** | **25%** |

© WJEC CBAC Cyf.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2016 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2016.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2017 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn yr haf 2017.

Gellir sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Cyflwyniad i Egwyddorion Economaidd | 2520U1 | 2520N1 |
| UG Uned 2 | Economeg ar Waith | 2520U2 | 2520N2 |
| U2 Uned 3 | Archwilio Ymddygiad Economaidd | 1520U3 | 1520N3 |
| U2 Uned 4 | Gwerthuso Modelau a Pholisïau Economaidd | 1520U4 | 1520N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2520QS | 2520CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1520QS | 1520CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru am y fanyleb hon ynghyd ag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch arall CBAC.

© WJEC CBAC Cyf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Safon Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | **Gradd uned** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Unedau** | **Uchafswm marciau unffurf uned** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** |
| **Uned 1 (15%)** | 75 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 |
| **Uned 2 (25%)** | 125 | 100 | 88 | 75 | 63 | 50 |
| **Uned 3 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |
| **Uned 4 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a'r radd am y pwnc yn cael ei seilio ar y cyfanswm hwn.

| | | **Gradd y cymhwyster** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Uchafswm marciau unffurf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Ar Safon Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).

© WJEC CBAC Cyf.

# ATODIAD A

**Sgiliau Meintiol mewn Economeg**

Er mwyn datblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn economeg, mae angen i ddysgwyr fod yn gymwys yn y sgiliau meintiol sy'n berthnasol i gynnwys y pwnc, ac yn gallu gwneud y canlynol:

- cyfrifo, defnyddio a deall cymarebau a ffracsiynau
- cyfrifo, deall a defnyddio canrannau a newidiadau canrannau
- deall a defnyddio'r termau cymedr, canolrif a chwantilau perthnasol
- llunio a dehongli ystod o ffurfiau graffigol safonol
- cyfrifo a dehongli mynegrifau
- cyfrifo costau, derbyniadau (refeniw) ac elw (ymylol, cyfartalog, cyfanswm)
- gwneud cyfrifiadau i drawsnewid o arian i dermau real
- gwneud cyfrifiadau o elastigedd a dehongli'r canlyniad; a
- dehongli, cymhwyso a dadansoddi gwybodaeth ar ffurf ysgrifenedig, graffigol a rhifiadol.

Bydd asesiad sgiliau meintiol yn cynnwys sgiliau mathemategol lefel 2 o leiaf fel isafswm o 20% o'r marciau Safon Uwch cyffredinol. Gellir asesu'r sgiliau hyn ar draws yr amcanion asesu.



© WJEC CBAC Cyf.